
Hawdd ei Ddeall

# Cronfa Cynyrchiadau Mawr

## Arian i helpu sefydliadau i gynnal sioeau mawr



**Hydref 2025**

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Cronfa Cynyrchiadau Mawr.**



Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Cyngor Celfyddydau Cymru**. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** www.celf.cymru

**E-bost:** grantiau@celf.cymru

**Ffôn:** 03301 242733

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei ddeall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247

# Cynnwys


Amdanom ni ........ 4

Am y gronfa yma ........ 5

Pwy sydd yn gallu gwneud cais ........ 6

Beth allwch chi wneud cais amdano ........ 8

Beth rydyn ni'n chwilio amdano yn eich prosiect ........ 9

Ein blaenoriaethau ........ 12

Faint allwch chi wneud cais amdano ........ 14

Sut fyddwn ni'n asesu eich cais ........ 17

Y broses o wneud cais ........ 19

Sut i gael help ........ 22

Am fwy o wybodaeth ........ 23

# Amdanom ni



Ni ydy Cyngor Celfyddydau Cymru. Rydyn ni'n rhoi arian i gefnogi'r celfyddydau yng Nghymru.



Pan fyddwn ni'n dweud celfyddydau, rydyn ni'n meddwl pethau fel:

- Cerddoriaeth, dawns a theatr.




Mae'r llyfryn yma am y gronfa Cynyrchiadau Mawr, a sut i wneud cais.

# Am y gronfa yma



Mae’r gronfa yma ar gyfer sefydliadau.




Mae’r arian ar gyfer prosiectau mawr.



Mae’n cefnogi digwyddiadau celfyddydol byw mawr yng Nghymru. Mae hyn yn gallu bod yn theatr, dawns, neu theatr gerddorol.



Mae’r arian i gefnogi sefydliadau i greu gwaith newydd a chyffrous.



Fe ddylai prosiectau ddangos y gorau o dalent Cymru.

# Pwy sydd yn gallu gwneud cais



Dim ond sefydliadau sydd yn gallu gwneud cais.



Edrychwch ar ein rhestr o ba fathau o sefydliadau sydd yn gallu gwneud cais: [arts.wales/cy/cymhwysedd-sefydliadau](arts.wales/cy/cymhwysedd-sefydliadau)




Rhaid i sefydliadau fod wedi'u lleoli yng Nghymru.



Fe ddylech chi fod â phrofiad o wneud cynyrchiadau.




Fe ddylech chi wybod sut i reoli arian cyhoeddus.
Fe ddylech chi fod wedi gwneud hyn o’r blaen.




Mae arian cyhoeddus yn meddwl pethau fel grantiau gan y llywodraeth.



Rhaid i chi gysylltu â thîm grantiau Cyngor Celfyddydau Cymru.



Fe fyddan nhw’n edrych i weld os ydych chi’n gallu cael cymorth gan y gronfa yma cyn rhoi ffurflen i chi.

# Beth allwch chi wneud cais amdano



Rydych chi'n gallu gwneud cais i wneud perfformiadau byw mawr. Mae hyn yn gallu bod yn theatr, dawns, neu theatr gerddorol.



Rydych chi'n gallu gwneud cais am sioe rydych chi wedi'i gwneud o'r blaen. Neu i wneud sioe yn fwy.




Rydych chi hefyd yn gallu gwneud cais i greu sioeau newydd.




Mae'n well gennym ni brosiectau sy'n cyrraedd cynulleidfaoedd mawr yng Nghymru. Mae prosiectau hefyd yn gallu cael eu cynnal y tu allan i Gymru.



Mae hyn yn gallu cynnwys sioeau teithiol. Mae sioe deithiol yn teithio i wahanol lefydd i berfformio.

# Beth rydyn ni'n chwilio amdano yn eich prosiect



## Fe ddylai eich prosiect ddigwydd yng Nghymru yn bennaf

Fe ddylai roi profiadau newydd a chyffrous i bobl.

Mae prosiectau hefyd yn gallu digwydd y tu allan i Gymru os ydyn nhw'n dal i gael effaith dda yng Nghymru.



## Rhaid i chi ddangos bod gennych y partneriaid cywir

Fe ddylai gweithio gyda phartneriaid fel artistiaid a sefydliadau eraill helpu i wneud y prosiect yn fwy ac yn gryfach.

Rydyn ni eisiau tîm creadigol gyda sgiliau ac sy'n gweithio'n dda gyda'i gilydd.




## Rhaid i chi gael cynllun cyllido clir

Rhaid i chwarter yr arian ddod o gronfeydd y tu allan i Gyngor y Celfyddydau neu'r Loteri. **Er enghraifft:**

Os ydy eich cyllideb prosiect yn **100 mil o bunnoedd**.

Rhaid i o leiaf **25 mil o bunnoedd** ddod o'r tu allan i gronfeydd Cyngor y Celfyddydau neu'r Loteri.



Mae swm bach yn gallu bod yn gymorth mewn nwyddau. Mae cymorth mewn nwyddau yn meddwl cymorth sydd yn cael ei roi ar ffurf gwasanaethau neu adnoddau lle arian.



Fe ddylech chi hefyd ddod o hyd i arian gan bartneriaid eraill neu incwm arall.



Am fwy o wybodaeth edrychwch ar ein canllaw cyllideb: arts.wales/cy/nodiadau-cymorth-cyllid




## Cynlluniwch ymhell ymlaen llaw

Rhoi digon o amser ar gyfer cynhyrchu, hyrwyddo, a gwaith cynulleidfa.

Rhaid i chi ddangos cynllun prosiect ac amserlen glir.



## Fe ddylai eich prosiect fod yn fwy na'ch gwaith arferol

Fyddwn ni ddim yn ariannu gweithgareddau sydd yn rhan o'ch rhaglen arferol yn barod.

# Ein blaenoriaethau



Fe ddylai eich cais ddangos sut mae eich prosiect yn cefnogi 1 neu fwy o'r syniadau yma:



**Creadigrwydd**: Rydyn ni eisiau gweld gwahanol fathau o waith creadigol sy'n canolbwyntio ar bobl a chymunedau.



**Cynnwys pawb**: Rydyn ni'n canolbwyntio ar gyrraedd grwpiau sy'n aml yn cael eu gadael allan.




**Cymraeg**: Rydyn ni eisiau helpu pobl i ddefnyddio mwy o Gymraeg.



**Hinsawdd**: Rydyn ni'n cefnogi prosiectau sy'n annog pobl i wneud rhywbeth i amddiffyn ein planed.



**Datblygu talent**: Rydyn ni eisiau cefnogi pobl o bob cefndir i adeiladu gyrfaoedd a sgiliau creadigol.



**Newid**: Rydyn ni eisiau i'r celfyddydau dyfu, cymryd risgiau a newid. Ar gyfer pob person a chymuned yng Nghymru.



Rhaid i bob prosiect ddilyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

# Faint allwch chi wneud cais amdano



Rydych chi'n gallu gwneud cais am rhwng 100 mil o bunnoedd a 300 mil o bunnoedd.



Mae gennym ni gyfanswm cyllideb o 600 mil o bunnoedd.



Dydyn ni ddim yn gallu ariannu llawer o geisiadau.




Rydych chi'n gallu darllen am ba gostau y gallwch wneud cais amdanyn nhw: [https://arts.wales/cy/nodiadau-cymorth-cyllid](https://arts.wales/cy/nodiadau-cymorth-cyllid)

# Pryd rydych chi’n gallu gwneud cais




Rhaid i chi wneud cais erbyn **1pm ddydd Mercher, 28 Ionawr 2025**.




Mae 1 dyddiad cau bob blwyddyn ar gyfer Cynyrchiadau Mawr.




Rhaid i chi gadw o leiaf 8 wythnos waith rhwng gwneud cais a dechrau eich prosiect.



Dydyn ni ddim yn gallu ariannu prosiectau sydd wedi dechrau’n barod.



Rydyn ni’n gallu rhoi ffurflen i chi hyd at 10 diwrnod cyn y dyddiad cau. Ond fe ddylech chi gysylltu â ni cyn gynted â phosibl os ydych chi am wneud cais.



Rhaid i’ch prosiect ddechrau ar ôl i chi gael penderfyniad gennym ni am eich cais.



Rhaid i’ch cais fod yn gyflawn pan fyddwch chi’n ei anfon atom ni.



Fyddwn ni ddim yn derbyn gwybodaeth ychwanegol os nad ydyn ni’n gofyn amdano.

# Sut fyddwn ni'n asesu eich cais

Fe fyddwn ni'n dewis prosiect sy'n cwrdd â'n nodau. Rhaid i'ch cais:



- Bod o ansawdd uchel.




- Darparu gwaith sy'n rhoi cyfleoedd cyflogedig neu hyfforddiant i bobl greadigol ac artistiaid llawrydd.




- Cael tîm gyda'r sgiliau a'r profiad cywir ar gyfer y prosiect.



- Cael cynlluniau i gyrraedd llawer o bobl a gwneud gwahaniaeth.




- Dangos sut mae eich cynlluniau yn cefnogi ein nodau.



- Cefnogi diwylliant a’r iaith Gymraeg.



- Dangos sut mae’n gweithio gydag eraill.



- Cynllunio yn glir ac yn ofalus sut mae’r arian yn cael ei ddefnyddio.

# Y broses o wneud cais

## Sut i wneud cais



Fe fydd angen i chi wneud cais ar ein porth ar-lein.



Os nad ydych chi wedi defnyddio'r porth yma o'r blaen, fe fydd angen i chi gofrestru.




Rydych chi'n gallu darganfod hyn yma:
porth.celf.cymru

# Cwestiynau mae angen i chi eu hateb



## 1. Ffurflen gais

Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n ateb pob cwestiwn yn glir.




Rydych chi'n gallu dod o hyd i'r templed ffurflen gais yma: https://arts.wales/cy/cynyrchiadau-mawr

## 2. Gwybodaeth ariannol



Rhaid i chi ddefnyddio templed Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer eich cyllideb.



Yn y ffurflen, rhaid i chi ddarparu costau eich prosiect. Fe fydd hyn yn dangos:

- Faint rydych chi'n gofyn amdano.
- Beth fydd y grant yn cael ei wario arno.
- Sut y bydd yn helpu'ch sefydliad.



Rydych chi'n gallu darllen mwy am sut i ddarparu cyllideb ar ein gwefan: arts.wales/cy/nodiadau-cymorth-cyllid



Rydych chi'n gallu anfon gwybodaeth ychwanegol i gefnogi'ch cais, fel:

- Cynllun prosiect.
- Cyllideb lawn - rhestr gyflawn o'r holl arian fydd eich prosiect ei angen.
- Deunyddiau creadigol. Fel sgript a rhestr cast.
- Gwybodaeth am eich cynulleidfaoedd yn y gorffennol.
- Cytundebau gyda phartneriaid neu leoliadau.
- Cadarnhau cyllid arall.
- Cynlluniau ar gyfer hyfforddiant neu ddatblygu.
- Unrhyw ddogfennau eraill sy'n gwneud eich cais yn gryf neu'n dangos cynlluniau i'r dyfodol.

# Sut i gael help




Rydych chi'n gallu cysylltu â ni os ydych chi eisiau gwybodaeth mewn gwahanol fformatau. Er enghraifft, print bras, braille, sain, ac Iaith Arwyddion Prydain.




Rydyn ni'n gallu cynnig gwybodaeth mewn ieithoedd eraill.




Os ydych chi angen cymorth ychwanegol, rydych chi'n gallu darllen mwy am beth rydyn ni'n ei gynnig ar ein gwefan: arts.wales/cy/cymorth-hygyrchedd

Rydych chi'n gallu cysylltu â ni:



**E-bost**: grantiau@celf.cymru



**Ffôn**: 03301 242733

# Am fwy o wybodaeth



Rydych chi'n gallu edrych ar y dolenni am ragor o wybodaeth:

Cymhwysedd i sefydliadau

Nodiadau cymorth cyllideb

Cymorth mynediad

Diffiniadau ffurfiau celf

Proses ymgeisio

## Os oes gennych chi gwestiwn

Rydych chi'n gallu cysylltu â ni:



**E-bost**: grantiau@celf.cymru



**Ffôn**: 03301 242733